

<b>CYFARFOD</b>	<b>FFORWM CYLLIDEB YSGOLION</b>
<b>DYDDIAD</b>	5 Chwefror 2018
<b>TEITL</b>	Rhagolwg Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2018
<b>PWRPAS</b>	Codi Ymwybyddiaeth Aelodau'r Fforwm
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Ystyried yr adroddiad
<b>AWDUR</b>	Hefin Owen
<b>AELOD CABINET DROS ADDYSG</b>	Y Cyngorydd Gareth Thomas

### 1. Rhagolwg Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2018

Yn gyffredinol rhagwelir balansau yn lleihau fel mae ysgolion yn ymateb i leihad nifer disgyblion a thoriadau.

Mae Atodiad 1 yn amcangyfrif balansau 31 Mawrth 2018 ar gyfer yr ysgolion fydd ar agor ar y dyddiad hwnnw.

Ymarferiad “desk-top” gan yr Uned Gyllid sydd wedi bod wrth adolygu lefel balansau posib yn y sector gynradd ac arbennig, gan nad oedd yn ymarferol cysylltu â thrafod gyda phob ysgol yn unigol o fewn yr amserlen.

Yr ysgolion uwchradd eu hunain sydd wedi rhagweld lefel balansau posib erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2017/18.

Mi gofiwch i'r Cabinet 13/12/2016 ohirio effaith lleihad demograffi 2017/18 ysgolion uwchradd gwerth £417mil hyd 2018/19 a hefyd gohiriwyd toriad 2017/18 o £299mil yn y sector uwchradd hyd 2019/20.

Mae'r ysgol ddilydol newydd yn Nolgellau wedi cynllunio i gael balansau sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn ymdopi â'r sefyllfa ariannol heriol sy'n ei hwynebu yn 2018/19.

Mae rhagolygon cyfredol yn awgrymu twf yn nifer disgyblion yn y sector uwchradd dros y 3 mlynedd nesaf a lleihad mewn niferoedd yn y sector gynradd.

### 2. Argymhelliad

Adolygu'r gwir sefyllfa yng nghyfarfod tymor yr Haf 2018.